

Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-21

Cwestiynau cyffredinol

Pam cynllun penodol ar gyfer y Gymraeg mewn addysg?

- Diben y cynllun gweithredu yw gosod ein cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg orfodol cyfrwng Gymraeg ac iaith Gymraeg dros y pedair blynedd nesaf, yn unol â gweledigaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr ac Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*.
- Mae'n tynnu llinynnau addysg Cymraeg 2050 a chynllun Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl ynghyd er mwyn bod yn glir o ran sut bydd y diwygiadau i'r gyfundrefn addysg yn cyfrannu at y nod o filiwn o siaradwyr.

Beth yw rôl cyrff / rhanddeiliaid eraill i gefnogi'r cynllun?

- Fel y nodwyd yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*, i gyflawni ein diwygiadau ym mhob rhan o'r system, bydd angen ymrwymiad bwriadus i gydweithio'n effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y proffesiwn addysgu a'r gweithlu addysg ehangach a'n rhanddeiliaid allweddol.
- Mae hon yn agenda hirdymor lle mae galw am gynllunio gofalus er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy. Byddwn yn darparu'r arweinyddiaeth gyffredinol ar gyfer y datblygiadau, ond bydd hefyd angen i bob un o'n partneriaid gydweithio â ni wrth i ni symud ymlaen i gyflawni'r diwygiadau pwysig a hanfodol hyn.
- Byddwn yn parhau i weithio gydag arbenigwyr o'r sector, ymgynghori â'n rhanddeiliaid allweddol, a monitro a gwerthuso'n barhaus gan ystyried arfer gorau rhyngwladol wrth i ni symud ymlaen i weithredu.

Sut fydd y cwricwlwm newydd yn gwella sgiliau iaith y plant a'r bobl ifanc?

- Mae Cymraeg yn rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae ysgolion arloesi'n gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, y consortia addysg rhanbarthol, arbenigwyr a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r cwricwlwm newydd.
- Mae'r grwpiau MDaPh yn gweithio ar hyn o bryd i adnabod 'beth sy'n bwysig' yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Bydd 'yr hyn sy'n bwysig' yn sail i'r cwricwlwm newydd.

- Yn y cwricwlwm newydd, bydd gan ddisgyblion yr hawl i ddysgu Cymraeg, Saesneg a iaith ryngwladol o'r ysgol gynradd, i gynnwys llenyddiaeth i bawb.
- Bydd ysgolion yn cynllunio cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr o fewn fframwaith o ddisgwyliadau a chefnogaeth cenedlaethol.

Beth yw continwwm iaith?

- Ni fydd y term Cymraeg ail iaith yn cael ei ddefnyddio yn y cwricwlwm newydd, ond byddwn yn cydnabod y gwahanol ffyrdd y mae plant a phobl ifanc yn caffael y Gymraeg ar hyn o bryd mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg, Saesneg a dwyieithog.
- Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd, bydd y Maes Dysgu a Phrofiad yn datblygu un continwwm ar gyfer dysgu ieithoedd, a bydd y Gymraeg yn rhan ohono.
- Mae Ysgolion Arloesi yn gweithio gyda phrosiect Camau (Prifysgol Glasgow a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant) i fapio dilyniant ar hyd continwwm dysgu o'r adeg y mae plentyn yn dechrau mewn ysgol neu leoliad hyd ddiwedd ei addysg statudol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal rhaglen o ymchwil i gefnogi datblygiad y continwwm iaith ac i adnabod arfer orau o ran addysgeg effeithiol.

Pryd fydd y continwwm ieithoedd newydd ar gael i'r ysgolion?

- Yn unol â'r amserlen ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad bydd holl grwpiau blwyddyn ysgolion cynradd a blwyddyn 7 yn defnyddio'r continwwm ieithoedd newydd ym mis Medi 2022. Dilyniir hynny gan broses o gyflwyno'r cwricwlwm flwyddyn ar flwyddyn.
- Dyddiadau allweddol:
 - Cwricwlwm drafft ar gael ar gyfer adborth - Ebrill 2019.
 - Cwricwlwm terfynol ar gael (ar gyfer dibenion cynllunio) - Ionawr 2020.

Beth am y cymwysterau TGAU? A fydd rhain yn newid?

- Rydym am sicrhau y bydd pob dysgwr yn gallu ennill cymwysterau priodol a chydabyddiaeth am ei ddysgu.
- Rydym yn gweithio gyda Chymwysterau Cymru i ddatblygu ein syniadau am amrywiaeth o gymwysterau ar gyfer y Gymraeg yn y dyfodol yn unol â'r cwricwlwm newydd.

- Bydd unrhyw gymwysterau Cymraeg newydd yn cael eu cyflwyno i gyd fynd gydag amserlen cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Unwaith bydd y cwricwlwm ar gael yn 2020, bydd Cymwysterau Cymru yn cychwyn ar y gwaith o ddatblygu cymwysterau i'w haddysgu o fis Medi 2025 pan fydd y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno i flwyddyn 10 am y tro cyntaf.

Sut mae sicrhau adnoddau addysgu Cymraeg ar gyfer y cwricwlwm newydd?

- Bydd Llywodraeth Cymru, drwy ei raglen comisiynu adnoddau addysgol, yn parhau i gomisiynu adnoddau Cymraeg a chyfrwng Cymraeg i gefnogi'r cwricwlwm a chymwysterau.
- Byddwn yn cydweithio â'r ysgolion arloesi, y pedwar consortia rhanbarthol, y sector creadigol a rhan ddeiliaid eraill i sicrhau bod adnoddau perthnasol ac amserol yn cael eu darparu, gan edrych ar yr hyn sydd eisoes ar gael ynghyd â chomisiynu a datblygu adnoddau o'r newydd.

Sut allwn annog mwy o blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg?

- Rydym yn cydnabod na all addysg yn unig greu siaradwyr Cymraeg hyderus. Mae angen cyfleoedd ar blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn nifer o gyd-destunau i gyfoethogi eu dysgu a'u hymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel iaith bob dydd.
- Mae cynlluniau yn mynd rhagddynt er mwyn sicrhau bod gwreiddio ac ehangu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn rhan greiddiol o'r meysydd dysgu a phrofiad o fewn y cwricwlwm newydd.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r pedwar consortia rhanbarthol drwy ariannu rhaglen sy'n eu galluogi i gefnogi ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg i sefydlu agweddau cadarnhaol o ran y Gymraeg a hybu defnydd anffurfiol plant a phobl ifanc ohoni. Mae'r rhaglen yn cynnwys y Siarter Iaith a'r prosiect cefnogi arferion iaith.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i'r maes hwn dros y cyfnod nesaf ac yn gweithio ymhellach gyda'r pedwar consortia rhanbarthol er mwyn datblygu un fframwaith ar gyfer pob ysgol yng Nghymru, waeth beth fo'i chategori ieithyddol, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc:
 - yn datblygu hyder i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg
 - yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith
 - yn cynyddu eu defnydd ohoni y tu fewn a tu allan i'r ysgol.

Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdodau lleol

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ei bod yn siomedig nad yw Cynlluniau Strategol yr awdurdodau lleol wedi arwain at dwf sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg.
- Yn dilyn cyhoeddiad o Adolygiad Brys Aled Roberts ar y CSGA mis Awst, ysgrifennodd y cyn-Weinidog, Alun Davies, at y 22 Awdurdod Lleol yn cyflwyno sylwadau ynghyd â barn Aled Roberts ar y cynlluniau, gan ofyn iddynt gyflwyno'r addasiadau priodol.
- Mae swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos â'r awdurdodau lleol er mwyn cefnogi a herio'r cynlluniau diwygiedig ynghyd â pharhau i ddatblygu perthynas agos â phartneriaid y Fforymau Addysg Lleol i sicrhau cynlluniau cadarn ac uchelgeisiol.

Beth am arian cyfalaf ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg?

- Bydd Band A y rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif yn buddsoddi £1.4 biliwn rhwng 2014-19 ar draws Cymru. Mae darparu llefydd cyfrwng Cymraeg i gwrdd â'r galw yn ystyriaeth allweddol yn y Rhaglen ac rydym yn buddsoddi dros £400 miliwn i adeiladu neu adnewyddu ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghymru i gwrdd â'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg.
- Cyhoeddwyd ail don o fuddsoddiad yn ddiweddar, sydd yn clustnodi £2.3 biliwn o fuddsoddiad ychwanegol, i gychwyn o Ebrill 2019. Bydd yr Iaith Gymraeg yn parhau yn flaenoriaeth allweddol ac rydym yn rhagweld buddsoddiad tebyg neu uwch i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r ail don o fuddsoddiad.
- Yn ystod datblygiad yr ail don o fuddsoddiad, mae awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach wedi cynnig prosiectau sy'n bodloni amcanion buddsoddi'r Rhaglen, sy'n cynnwys:
 - lleihau nifer yr ysgolion a cholegau mewn cyflwr gwael;
 - sicrhau bod digon o lefydd i gwrdd â'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg;
 - cynyddu defnydd cymdeithasol o ysgolion a cholegau.

Sut mae sicrhau gweithlu digonol i wireddu'r Cynllun?

- Fel rydym yn gwybod, mae'r gyfundrefn addysg yn gwbl ddibynnol ar ei gweithlu.
- Er ein bod yn recriwtio cyflenwad digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg ar gyfer y sector cynradd, os ydym i gyrraedd ein targedau ar gyfer athrawon uwchradd mae angen i ni gynyddu recriwtio i hyfforddiant cychwynnol

athrawon cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn er mwyn cyrraedd y targed erbyn 2021.

- Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet gymhelliant cyfrwng Cymraeg newydd a fydd yn targedu darpar-athrawon uwchradd sy'n hyfforddi i addysgu pob arbenigedd pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Bydd y cymhelliant newydd o £5,000 yn ategu trefniadau sy'n bodoli eisoes a gobeithio y bydd yn arwain at gynyddu'r pwl o athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu'r Gymraeg a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Fodd bynnag, nid hyfforddiant cychwynnol yw'r unig ffynhonnell i gynyddu'r gronfa o athrawon. Yn 2017/18, mae 20 o leoliadau athrawon graddedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd swyddogion yn gweithio gyda'r consortia i geisio cynyddu'r gronfa hon yn y dyfodol.
- Drwy ymgyrch Darganfod Addysgu, byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hyrwyddo addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gydag israddedigion, gyda'r nod o gynyddu'r nifer a dderbynnir ar gyfer y dyfodol.

Sut mae uwch-sgilio'r gweithlu presennol?

- Rydym yn buddsoddi yn natblygiad y gweithlu trwy'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg, sy'n darparu hyfforddiant iaith dros gyfnodau dwys i ymarferwyr. Yn osgytal, mae cyllid yn cael ei ddarparu i'r consortia rhanbarthol i ddatblygu a darparu rhaglen ranbarthol o ddysgu proffesiynol i gefnogi dysgu ac addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Beth am ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol?

- Rhaid i ni sicrhau y gall pob dysgwr gael mynediad cyfartal i addysg cyfrwng Cymraeg a phrofi'r cyfleoedd gorau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Mae tegwch yn golygu bod angen i ni sicrhau bod y system, ar lefel ysgolion, ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol, yn ystyried yr heriau unigryw sy'n wynebu unigolion neu grwpiau o ddysgwyr, ac yn ymateb i'r heriau hynny.
- Drwy weithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, consortia rhanbarthol ac ystod o randdeiliaid, rhaid i ni sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn gyntaf wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i gefnogi ein dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a sicrhau bod ymarferwyr a'r gweithlu addysg ehangach yn gallu cael mynediad i gymorth ac adnoddau yn y Gymraeg er mwyn helpu ein dysgwyr mwyaf agored i niwed a'r rhai mwyaf talentog i gyflawni eu potensial

Sut fyddwch yn annog mwy o rieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg, a'u helpu nhw i gefnogi'u plant?

- Bydd cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cynhwysfawr yn sail i'n holl amcanion er mwyn sicrhau bod pob rhanddeiliad yn cael ei gynnwys wrth ddatblygu'r Gymraeg mewn addysg. Y nod yw ymgysylltu ac ysbrydoli rhanddeiliaid, rhieni/gofalwyr a dysgwyr i fod yn rhan o'r daith gyffrous hon ar gyfer addysg Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.
- Byddwn yn datblygu ymgyrchoedd ac adnoddau penodol i gefnogi rhieni/gofalwyr pan fyddant yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plentyn ac ysbrydoli pobl ifanc i barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy ddangos cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y gwaith ac fel rhan o fywyd bob dydd.